## GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 27ain Mawrth 2006 |
| ADRODDIAD GAN: | **PAUL CLAYDON**<br>**PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL (CYFLWYNO'R GWASANAETHAU)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr ymatebion a ddaeth i law ynghylch ymgynghoriad yr Awdurdod ar ei Gynllun Gweithredu trydedd flwyddyn ei Gynllun Integredig Rheoli Risg "Cynnal y Momentwm". |

1. **<u>CEFNDIR</u>**

1.1 Yn Rhagfyr 2002, fe wnaeth y Dirprwy Brif Weinidog hi'n glir y dylid cael rhaglen i ddiwygio a moderneiddio'r fframwaith y mae'r gwasanaeth tân ac achub yn gweithredu o'i fewn. Un o elfennau allweddol y rhaglen honno oedd yr angen i awdurdodau tân lunio Cynlluniau Integredig Rheoli Risg, ac maent hefyd yn rhan o Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru.

2. **<u>CYFLWYNIAD</u>**

2.1 Yn ei gyfarfod ar 19eg Rhagfyr 2005 fe gymeradwyodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Gynllun Gweithredu trydedd flwyddyn ei Gynllun Integredig Rheoli Risg, "Cynnal y Momentwm".

2.2 Anfonwyd hysbysiad at dros 500 o unigolion/sefydliadau i dynnu eu sylw at yr ymgynghoriad a'i fod ar gael ar wefan y Gwasanaeth. Anfonwyd datganiadau i'r wasg hefyd i dynnu sylw at y broses ymgynghori a bod y ddogfen ar gael. Anfonwyd copïau o'r cynllun i holl safleoedd y Gwasanaeth.

2.3 Buwyd yn briffio, mewn sawl ffordd, nifer o Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol a chynghorau lleol i ymhelaethu ar gynlluniau'r Awdurdod.

2.4 O ystyried maint y diddordeb, penderfynwyd ychwanegu wythnos at y cyfnod ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad, sef symud y dyddiad cau o'r 1af o Fawrth hyd at yr 8fed o Fawrth 2006 er mwyn rhoi digon o amser i bob unigolyn a sefydliad oedd yn dymuno cyflwyno sylwadau, wneud hynny.

2.5 Adroddwyd crynodeb manwl o'r ymatebion a dderbyniwyd i Weithgor Cynllun Risg yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 13eg o Fawrth 2006. Er gwybodaeth ichi, mae copi o'r adroddiad hwnnw i'w weld yn Atodiad 1.

3. **GWYBODAETH**

3.1 Cyn i gyfarfod o Weithgor y Cynllun Risg gael ei gynnal, datganodd Llywodraeth y Cynulliad ei fwriad i gyhoeddi a lansio ei gyfarwyddyd ar Gynllunio i Leihau Risg, ar 21ain Mawrth 2006. O'r herwydd, penderfynodd Gweithgor y Cynllun Risg ohirio llunio'i argymhellion i'r Awdurdod ar y Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn hyd nes y byddai'r Cyfarwyddyd wedi ei gyhoeddi, a chynnal cyfarfod arall i gytuno ar ei argymhellion yn union o flaen cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 27ain Mawrth 2006.

3.2 Daw rhagor o gyngor ysgrifenedig ar y fframwaith polisi a chyfreithiol unwaith y cyhoeddir y cyfarwyddyd ar gynllunio i leihau risg.

4. **ARGYMHELLION**

4.1 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad; ac

4.2 Yn ddibynnol ar unrhyw argymhellion a gwelliannau gan Weithgor y Cynllun Risg argymell fod yr Awdurdod Tân ac Achub yn mabwysiadu'r cynllun gweithredu trydedd flwyddyn ar gyfer 2006/07.